

TGAU



TGAU CBAC

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

TGAU CBAC

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (GRADD DWYRADD)

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

CANLLAW ADDYSGU

Addysgu o 2019
I'w ddyfarnu o 2021

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.



Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Nodau'r Canllawiau Addysgu	3
3. Trosolwg o'r fanyleb	4
4. Amcanion asesu	6
5. Rhaglen astudio	7
6. Canllawiau unedau	10
7. Asesiadau Di-arholiad	34
8. Arholiadau ysgrifenedig	45
9. Adnoddau defnyddiol i athrawon	48

1 Cyflwyniad

Mae cymhwyster **TGAU CBAC Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant**, a achredwyd gan Gymwysterau Cymru i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019, ar gael i:

- bob ysgol a choleg yng Nghymru
- ysgolion a cholegau mewn rhanbarthau annibynnol fel Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.

Caiff ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn ystod Haf 2021, gan ddefnyddio graddau A*- G.

Mae'r fanyleb yn adeiladu ar y traddodiad a'r enw da y mae CBAC wedi'u sefydlu o ran asesiadau clir a dibynadwy wedi'u hategu gan ganllawiau a threfniadau gweinyddol hygyrch a syml.

Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys:

- cyfleoedd ar gyfer dulliau addysgu hyblyg
- hygyrchedd deunyddiau
- deunyddiau adnoddau ac arholiadau o safon uchel.

Amlinellir y set gyflawn o ofynion yn y fanyleb sydd ar gael ar [wefan CBAC](#).

Yn ogystal â'r canllawiau hyn, darperir cymorth fel a ganlyn:

- deunyddiau asesu enghreifftiol
- digwyddiadau DPP wyneb yn wyneb
- adroddiadau arholwyr ar bob cyfres o arholiadau
- mynediad rhad ac am ddim at gyn-bapurau cwestiynau a chynlluniau marcio
- mynediad uniongyrchol at y swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein rhad ac am ddim
- dadansoddi canlyniadau arholiadau
- adolygu arholiadau ar-lein
- bwletinau e-bost.

2 Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nodau'r Canllawiau Addysgu yw rhoi cefnogaeth i athrawon gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu.

Ni fwriedir i'r canllawiau fod yn gyfeirbwynt cynhwysfawr; bwriedir iddynt, yn hytrach, roi cymorth i athrawon proffesiynol ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau eu dysgwyr eu hunain yn eu sefydliadau eu hunain.

Mae'r canllawiau'n cynnig cymorth i athrawon drwy awgrymu llwybr drwy'r fanyleb y gellir ei ddefnyddio fel sylfaen i ddatblygu cynllun gwaith, ac yn darparu dolenni at adnoddau defnyddiol.

Dylid defnyddio'r Canllawiau Addysgu fel adnodd ategol i gyd-fynd â'r fanyleb. Dylid cyfeirio at y fanyleb yn gyntaf bob amser, ac mae ar gael ar [wefan CBAC](#).

Bydd enghreifftiau o asesiadau di-arholiad yn cael eu dosbarthu gan CBAC er mwyn helpu athrawon i nodi safon y gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol. Bwriedir y deunyddiau hyn at ddefnydd aseswyr mewnol asesiadau di-arholiad yn unig ac ni chaniateir eu rhannu ag ymgeiswyr.

CRYNODEB O'R ASESU Gradd Unigol

Uned 1: Twf, datblygiad a llesiant dynol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
40% o gymhwyster Gradd Unigol
20% o gymhwyster Dwyradd

80 marc: 100 GMU

Asesiad (a gynhelir ar sgrin neu ar bapur) sy'n cynnwys amrediad o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud â thwf, datblygiad a llesiant pobl.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant
Asesiad di-arholiad: tua 25 awr
60% o gymhwyster Gradd Unigol
30% o gymhwyster Dwyradd

120 marc: 150 GMU

Tasg 1: Darparu Gwasanaethau (tua 10 awr)

Mae 40% o'r marciau yn yr uned hon yn cael eu dyrannu i ymchwiliad darparu gwasanaethau a fydd yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn lleol ac yn genedlaethol.

Tasg 2: Hybu Iechyd (tua 15 awr)

Mae 60% o'r marciau yn yr uned hon yn cael eu dyrannu i dasg sy'n asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr mewn perthynas â hybu a chynnal iechyd a llesiant.

CRYNODEB O'R ASESU Dwyradd

Unedau 1 a 2 yn ogystal â:

Uned 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn yr 21^{ain} ganrif Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 20% o'r cymhwyster	80 marc: 100 GMU
<p>Asesiad (a gynhelir ar sgrin neu ar bapur) sy'n cynnwys amrediad o fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21^{ain} ganrif.</p> <p>Mae pob cwestiwn yn orfodol.</p>	
Uned 4: Hybu a Chynnal Iechyd a Llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol Asesiad di-arholiad: tua 25 awr 30% o'r cymhwyster	120 marc: 150 GMU
<p>Gweithgaredd i ddiwallu angen</p> <p>Mae'r dasg hon yn asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr mewn perthynas â gweithgareddau ystyrlon er mwyn bodloni angen penodol grŵp targed sydd wedi'i ddewis, ac sy'n helpu i hybu hunaniaeth, hunanwerth, ymdeimlad o sicrwydd neu wydnwch.</p>	

Nid oes haenau yn y cymwysterau gradd unigol a dwyradd unedol.

Bydd y ddau gymhwyster hyn ar gael i'w hasesu ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Fe'u dyfernir am y tro cyntaf yn ystod haf 2021.

Mae'r tabl isod yn dangos y llwybrau posibl tuag at gymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Cymhwyster	Uned 1 o 2020	Uned 2 o 2021	Uned 3 o 2021	Uned 4 o 2021
TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (gradd unigol)	✓	✓		
TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (dwyradd)	✓	✓	✓	✓

Lle mae ymgeiswyr wedi cyfnewid Uned 1 ac Uned 2 am y radd unigol, ni all deilliannau Uned 1 nac Uned 2 wedyn gyfrannu at ddwyradd ddilynol.

4 Amcanion asesu

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon i'w gweld isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant

AA2

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant mewn amrediad o gyd-destunau perthnasol

AA3

Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan ffurfio barn resymedig a llunio casgliadau

Mae'r tablau isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymwysterau gradd unigol a dwyradd.

Gradd Unigol

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	15%	15%	10%	40%
Uned 2	20%	25%	15%	60%
Pwysoliad cyffredinol	35%	40%	25%	100%

Dwyradd

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	7.5%	7.5%	5%	20%
Uned 2	10%	12.5%	7.5%	30%
Uned 3	7.5%	7.5%	5%	20%
Uned 4	10%	12.5%	7.5%	30%
Pwysoliad cyffredinol	35%	40%	25%	100%

Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei asesu mewn:

- cwestiwn penodol ym mhob un o'r arholiadau ysgrifenedig sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig
- adran ddadansoddi/gwerthuso pob tasg asesiad di-arholiad.

Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn ystyried defnydd yr ymgeisydd o iaith arbenigol. Mae hefyd yn ystyried sillafu, atalnodi a gramadeg yr ymgeisydd.

5 Rhaglen astudio

Llwybrau drwy'r fanyleb

Bwriad y llwybr a awgrymir drwy'r cwrs yw helpu athrawon i gynllunio, a gellid ei ddefnyddio fel sail i gynllun gwaith.

Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod sawl ffordd arall o drefnu cynnwys y fanyleb, ac mai awgrymiadau sydd yma nid gorchmynion.

Dylai athrawon ystyried:

- anghenion a galluoedd eu dysgwyr
- yr amser a ddyrennir
- nifer y gwersi mewn wythnos
- amseru arholiadau ac asesiadau mewnol
- profiad athrawon eu hunain
- adnoddau o fewn yr ysgol a'r ardal leol.

Mae'r cymhwyster gradd unigol yn cynnwys Unedau 1 a 2. Mae'r cymhwyster dwyradd yn cynnwys Unedau 1, 2, 3 a 4.

O ran trefn y cwrs, argymhellir rhoi sylw i Unedau 1 a 2 cyn Unedau 3 a 4, er mwyn rhoi hyblygrwydd i ddysgwyr sy'n astudio'r cwrs dwyradd i gofrestru ar gyfer gradd unigol pe bai eu cynlluniau'n newid.

Rhaid sefyll o leiaf 40% o'r asesiad cyfan ar ddiwedd y cwrs. Mae hyn yn golygu y gellir sefyll o leiaf un o'r ddwy uned ar gyfer gradd unigol ac o leiaf ddwy o'r pedair uned ar gyfer dyfarniad dwyradd, neu bob uned, ar ddiwedd y cwrs. Bydd un cyfle i ymgeiswyr i ailsefyll uned unigol.

Mae'n bwysig cofio, er bod asesiad pob uned yn canolbwyntio ar y cynnwys uned sy'n benodol i'r uned honno, y gall ymgeiswyr gael marciau am unrhyw gyfeiriad at gynnwys o unedau eraill. Er enghraifft:

- yn Uned 2, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd o fewn Uned 1 wrth gwblhau eu tasgau Asesiad Di-arholiad
- yn Uned 4, bydd ymgeiswyr yn gallu galw ar wybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd o fewn unrhyw un o'r tair uned arall wrth gwblhau eu tasg Asesiad Di-arholiad.

Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr i wneud cysylltiadau rhwng elfennau o bob rhan o'r cwrs astudio a dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Gall fod yn anodd cyflawni hyn os yw'r staff yn addysgu'r unedau ar wahân, ond dylid gwneud pob ymdrech i dynnu sylw'r dysgwyr at gysylltiadau.

Wrth addysgu'r cymhwyster dwyradd, mae'r llwybr canlynol drwy'r fanyleb yn un opsiwn posibl.

Blwyddyn 10		
Tymhorau'r ysgol	Uned	Cynnwys
Medi/Hydref	1	2.1.1 Datblygiad dynol drwy gydol cylchred bywyd 2.1.2 Iechyd corfforol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol
Hanner tymor		
Tachwedd/Rhagfyr	2	2.2.1 Iechyd a gofal cymdeithasol, a darpariaeth gofal plant yng Nghymru i hybu a chynnal iechyd a llesiant Asesiad Di-arholiad Uned 2 – Tasg 1 (cyfanswm o 10 awr dan oruchwyliaeth i'w chwblhau)
Nadolig		
Ionawr/Chwefror	1 a 2	2.2.2 Iechyd y cyhoedd a hybu iechyd drwy gydol cylchred bywyd 2.1.3 Pwysigrwydd cyfranogiad gweithredol i ddatblygiad a llesiant Asesiad Di-arholiad Uned 2 – Tasg 2 (cyfanswm o 15 awr dan oruchwyliaeth i'w chwblhau)
Hanner tymor		
Mawrth/Ebrill	1 a 2	2.1.4 Atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn hybu a chynnal twf, datblygiad a llesiant 2.2.3 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol cylchred bywyd Asesiad Di-arholiad Uned 2 – Tasg 2 (parhad)
Pasg		
Ebrill/Mai	1 a 2	Asesiad Di-arholiad Adolygu Ffug arholiad
Hanner tymor		
Mehafin/Gorffennaf	1 a 2	Arholiad Asesiad Di-arholiad

Ar gyfer asesiad di-arholiad, ar wahân i'w gwaith ymchwilio, dylai ymgeiswyr gwblhau dwy dasg Uned 2 dan oruchwyliaeth mewn tua 25 awr, h.y.:

Tasg 1 – 10 awr, Tasg 2 – 15 awr.

Blwyddyn 11		
Tymhorau'r ysgol	Uned	Cynnwys
Medi/Hydrif	3 a 4	2.3.4 Cynnal system gynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn yr 21 ^{ain} ganrif 2.4.2 Sut mae mathau o ofal yn helpu unigolion i sicrhau canlyniadau cadarnhaol Asesiad Di-arholiad (cyfanswm o 25 awr dan oruchwyliaeth i'w gwblhau)
Hanner tymor		
Tachwedd/Rhagfyr	3 a 4	2.3.3 Materion cyfoes mewn iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant 2.4.1 Sut mae iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cyhoeddus a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (GIG Cymru) wedi gwella iechyd a llesiant y genedl Asesiad Di-arholiad
Nadolig		
Ionawr/Chwefror	4	2.4.3 Cefnogi hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o ddiogelwch a gwydnwch drwy gydol cylchred bywyd 2.4.4. Gweithgareddau ystyrlon i gynnal a hybu iechyd, datblygiad a llesiant Asesiad Di-arholiad
Hanner tymor		
Mawrth/Ebrill	3 a 4	2.3.1 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys y Gymraeg a diwylliant Cymru 2.3.2 Diogelu Asesiad Di-arholiad
Pasg		
Ebrill/Mai	3	Asesiad Di-arholiad Adolygu Ffug arholiad
Hanner tymor		
Mehefin/Gorffennaf	3	Arholiad

Mae'r llwybr a awgrymir yn caniatáu i ymgeiswyr weithio drwy'r dasg un adran ar y tro yn hytrach na chwblhau'r dasg gyfan ar ddiwedd y broses addysgu.

Ar gyfer asesiad di-arholiad, ar wahân i'w gwaith ymchwilio, dylai ymgeiswyr gwblhau tasg Uned 4 dan oruchwyliaeth mewn tua 25 awr. Mae'r canllawiau unedau canlynol yn dangos nifer yr oriau addysgu a awgrymir ar gyfer pob testun; mae gweddill yr oriau ar gyfer gwaith ymchwilio unigol a chwblhau tasgau'r Asesiad Di-arholiad dan oruchwyliaeth.

6 Canllawiau unedau

Uned 1 - Twf, datblygiad a llesiant dynol

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.1.1 (a) Camau bywyd ar draws y gylchred bywyd	Trafod cynnwys yr uned ac asesu. Defnyddiwch enghraifft o grŵp teulu ag aelodau o bob cyfnod mewn bywyd. Edrychwch ar bum prif gyfnod bywyd a'r amrediadau oed. Defnyddiwch gardiau i baru aelod o'r teulu, amrediad oed a chyfnod mewn bywyd; trafodwch yr atebion. Ysgrifennwch nodiadau mewn tabl.	Enghraifft o grŵp teulu – defnyddiwch un o opera sebon deledu boblogaidd Cardiau cymysgu a chyfateb Gwerslyfrau Adnoddau ar-lein CBAC	Dysgwch y camau bywyd a'u hamrediadau oed	1
2.1.1 (b) Twf a datblygiad	Diffiniwch dwf a datblygiad mewn trafodaeth, a ffurfiwch ddatganiad yn unol â'r fanyleb. Trafodwch PIES a disgrifiwch eu hystyron. Lluniwch gylch a'i rannu'n bedair label, pob sector yn glocwedd â P, I, E, S, (gan gynnwys diffiniadau). I edrych yn ôl ar hyn a'r gwersi blaenorol, gallai dysgwyr gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd i asesu dealltwriaeth, e.e. trefnu cardiau, bingo, dalen waith.	Gwerslyfrau Adnoddau ar-lein CBAC Manyleb, tudalen 11 Gweithgaredd asesu, e.e. trefnu cardiau, bingo, dalen waith	Dysgwch y geiriau a'r diffiniadau ar gyfer y prawf yn y wers nesaf	1

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.1.1 (c) Cerrig milltir disgwyliedig twf a datblygiad</p>	<p>Profwch wybodaeth y dysgwyr o'r wers flaenorol.</p> <p>Esboniwch fod cerrig milltir disgwyliedig ar gyfer twf a datblygiad corfforol a cherrig milltir allweddol deallusol, emosiynol a chymdeithasol sy'n digwydd yn nodweddiadol yn ystod pob cyfnod mewn bywyd.</p> <p>Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau a dyrannwch aelod o'r teulu o wahanol gyfnod mewn bywyd i bob grŵp (gweler gwers 1). Yna, bydd pob grŵp yn ymchwilio i gerrig milltir ac yn cynhyrchu adnodd (poster/cyflwyniad/taflen PowerPoint) ynglŷn â PIES sydd wedi'i ddatblygu ar gyfer y cyfnod mewn bywyd a ddyrannwyd iddynt.</p> <p>Yna bydd y dysgwyr yn edrych ar yr adnoddau i gyd i gael gwybodaeth am gamau eraill bywyd.</p> <p>Trafodwch bob cyfnod mewn bywyd â'r dosbarth.</p> <p>Dylech gynnwys trafodaeth am ddefnyddio siartiau canraddau a'r Amserlen Sgiliau Tyfu i gofnodi datblygiad o 0-19 oed.</p>	<p>Ar gyfer yr ymchwil:</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Adnoddau ar-lein CBAC</p>	<p>Tasgau ymchwil</p>	<p>12</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.1.1 (ch) Ffactorau sy'n effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant</p>	<p>Cyflwynwch y syniad bod gwahanol ffactorau'n effeithio arnom drwy gydol cylchred bywyd ac yn effeithio ar ein twf, ein datblygiad a'n llesiant; rydyn ni, fel unigolion, yn gallu rheoli rhai ohonynt, ond nid y cyfan.</p> <p>Dylai'r dysgwyr gydweithio i gynhyrchu map meddwl o ffactorau maen nhw'n meddwl sy'n dylanwadu arnom.</p> <p>Trafodwch y rhain a chyflwynwch y ffaith y gallai fod gwahanol gategoriâu o ffactorau: corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, economaidd ac amgylcheddol.</p> <p>Yna, bydd y dysgwyr yn grwpio'r ffactorau maen nhw wedi eu nodi fesul categori.</p> <p>Trafodwch y gydberthynas rhwng y ffactorau hyn a rhowch enghreifftiau i ddangos sut maen nhw'n gallu cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lesiant unigolyn.</p> <p>Gall athrawon ddefnyddio enghraifft y grŵp teulu o wers 1 i roi gwahanol senarios i'r dysgwyr ac amgylchiadau unigol o bob cyfnod mewn bywyd i'w hystyried. Y dysgwyr yn cynhyrchu eu canllaw adolygu eu hunain am y pwnc hwn (gallai fod yn dabl, yn fap meddwl neu'n gêm trefnu cardiau).</p>	<p>Gwerslyfrau</p> <p>Adnoddau ar-lein CBAC</p> <p>Astudiaethau achos drwy'r camau bywyd</p>	<p>Gorffen y canllaw adolygu</p> <p>Cwestiynau arddull arholiadau</p>	<p>12</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.1.2 (a) Rhyng-ddibyniaeth rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl da</p>	<p>Dangoswch luniau i'r dysgwyr o enghreifftiau o bobl o wahanol gamau bywyd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff, a gofynnwch iddynt nodi sut maen nhw'n meddwl mae pob unigolyn yn elwa.</p> <p>Trafodwch syniadau'r dysgwyr a chyflwynwch y ffeithiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gall gweithgarwch corfforol arwain at fanteision iechyd uniongyrchol a hirdymor a gwella ansawdd bywyd • mae cysylltiad agos rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl • mae gweithgarwch corfforol hefyd yn gallu creu manteision cymdeithasol ac emosiynol. <p>Y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau i ymchwilio i iechyd corfforol a meddyliol ac i fanteision emosiynol a chymdeithasol bod yn fwy gweithgar – pob grŵp yn cynhyrchu poster. Yna bydd y dysgwyr yn edrych ar y posteri i gyd i wneud eu nodiadau eu hunain.</p>	<p>Gwerslyfrau</p> <p>Ymchwil ar y we</p>	<p>Cwestiynau arddull arholiadau</p>	<p>3</p>
<p>2.1.2 (b) Adnoddau i gefnogi iechyd cymdeithasol, emosiynol a deallusol</p>	<p>Gofynnwch i'r dysgwyr sut maen nhw'n dehongli'r geiriau/ymadroddion 'meddylfryd twf', 'ymwybyddiaeth ofalgar', 'gwydnwch' (cawn nhw ddefnyddio geiriaduron i helpu).</p> <p>Trafodwch sut mae pob math o gymorth yn cefnogi iechyd cymdeithasol ac emosiynol a sut maen nhw'n berthnasol i bob cyfnod mewn bywyd ac yn cael eu defnyddio'n arbennig mewn ysgolion ac mewn lleoliadau gofal eraill.</p> <p>Y dysgwyr i gynhyrchu tabl sy'n cynnwys y diffiniad o bob math o gymorth a'r manteision i iechyd cymdeithasol, emosiynol a deallusol.</p>	<p>Geiriaduron</p>	<p>Cwblhewch y tabl</p>	<p>1</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.1.3 (a) Cyfranogiad gweithredol</p> <p>a</p> <p>2.1.3 (b) Buddion cyfranogiad gweithredol i'r unigolyn</p>	<p>Gwaith mewn parau i'r dysgwyr roi eu diffiniad eu hunain o gyfranogiad gweithredol. Trafodwch, yna rhwch y diffiniad canlynol i'r dysgwyr: 'mae cyfranogiad gweithredol yn ffordd o weithio sy'n ystyried unigolion fel partneriaid gweithredol yn eu gofal eu hunain yn hytrach nag fel derbynwyr goddefol'.</p> <p>Pwysleiswch fod cyfranogiad gweithredol yn cydnabod hawl pob unigolyn i gymryd rhan mor annibynnol â phosibl mewn gweithgareddau a chydberthnasau bywyd pob dydd.</p> <p>Defnyddiwch senarios enghreifftiol fel bod y dysgwyr yn gallu nodi a thrafod sut i ddefnyddio cyfranogiad gweithredol mewn gwahanol leoliadau gofal a drwy gydol pob cyfnod mewn bywyd, gan nodi'r manteision i'r unigolyn.</p> <p>Y dysgwyr yn gwneud cymorth adolygu ynglŷn â sut i ddefnyddio cyfranogiad gweithredol drwy gydol pob cyfnod mewn bywyd, a'r manteision i'r unigolyn.</p>	<p>Senarios enghreifftiol</p>	<p>Dysgwch y diffiniad o 'gyfranogiad gweithredol' a'r enghreifftiau perthnasol o bob cyfnod mewn bywyd.</p> <p>Gorffen y cymorth adolygu</p>	<p>2</p>
<p>2.1.4 (a) Ffyrdd o hybu a chefnogi twf, datblygiad a llesiant</p>	<p>Cyflwynwch y syniad bod unigolion yn elwa o gefnogaeth yn gynnar i atal, neu o leiaf ohirio, defnyddio gwasanaethau ffurfiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.</p> <p>Defnyddiwch yr enghraifft o'r teulu o wers 1. Y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau. Dyrannwch aelod o'r teulu i bob grŵp, sydd yna'n ymchwilio i ffyrdd o hybu a chynnal twf a llesiant yr aelod o'r teulu. Bydd pob grŵp yn cyflwyno ei ganfyddiadau i weddill y dosbarth.</p> <p>Yna bydd pob dysgwr yn gwneud ei siart gwybodaeth ei hun ar gyfer pob cyfnod mewn bywyd.</p>	<p>Ymchwil ar y we</p> <p>Gwerslyfrau</p>	<p>Gorffen y siartiau gwybodaeth</p>	<p>2</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.1.4 (b) Cyflyrau	Trafodaeth am gyflyrau tymor byr a thymor hir sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol i gynnal iechyd a llesiant. Yna bydd y dysgwyr yn llunio tabl o gyflyrau tymor byr a thymor hir gan gynnwys ffynonellau cymorth, oes modd atal y cyflwr ac ar ba gamau bywyd mae'n effeithio.	Ymchwil ar y we Gwerslyfrau	Cwestiynau arddull arholiadau yn seiliedig ar wahanol senarios	1
2.1.4 (c) Amgylchiadau	Gweithgaredd trefnu cardiau – y dysgwyr yn trefnu'r cardiau yn ôl digwyddiadau bywyd disgwyliedig ac annisgwyl. Trafodwch y gweithgaredd a sôn am sut mae digwyddiadau bywyd yn dylanwadu ar amgylchiadau unigolyn. Y dysgwyr yn gweithio mewn parau i ganfod effeithiau cadarnhaol a negyddol sy'n gysylltiedig â phob digwyddiad mewn bywyd ac a yw'r effeithiau'n rhai tymor byr neu dymor hir. Trafodwch wahanol senarios enghreifftiol o'r newyddion / erthyglau mewn cylchgronau. Y dysgwyr yn gwneud eu nodiadau adolygu eu hunain.	Gweithgaredd trefnu cardiau Gwerslyfrau Newyddion/erthyglau mewn cylchgronau	Cwestiynau arddull arholiadau	2

Uned 2 – Hybu a chynnal iechyd a llesiant

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.2.1 (a) Fframweithiau deddfwriaethol cenedlaethol sy'n hybu a chynnal iechyd a llesiant</p>	<p>Trafod cynnwys yr uned a thasg asesu. Gofynnwch y cwestiwn 'Pam mae angen deddfau ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant?' Trafodwch yr atebion a gwnewch restr. Gweithgaredd carwsél – tair gorsaf â gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn. Rhannwch y dosbarth yn dri grŵp gan roi gweithgaredd wedi'i amseru ar bob bwrdd. Y dysgwyr yn casglu gwybodaeth am bob sefydliad. Trafodaeth am y canfyddiadau. Gweithgaredd 'Pum Piler doethineb'. Rhannwch bapur A3 yn bum colofn ac ar ben pob colofn ysgrifennwch enwau pum Deddf allweddol o'r fanyleb. Y dysgwyr yn ymchwilio pwyntiau allweddol am bob darn o ddeddfwriaeth ac yn gwneud nodiadau o dan y pennawd priodol. Ar gefn y papur A3, y dysgwyr yn ymchwilio ac yn cwblhau diagram corryn o fentrau/strategaethau a fframweithiau presennol sy'n bodoli i gynnal a hybu iechyd a lles ym mhob cyfnod mewn bywyd.</p>	<p>Taflenni gwybodaeth am bob sefydliad: https://agic.org.uk https://arolygiaethgofal.cymru/ https://www.estyn.llyw.cymru https://llyw.cymru/topics/health/socialcare https://www.gov.uk/government/publications/health-and-social-care-act-2012-fact-sheets https://www.legislation.gov.uk</p> <p>Manyleb, tudalen 20</p> <p>Defnyddiwch senarios enghreifftiol i ddangos sut caiff deddfau eu gweithredu</p>	<p>Cwblhewch y diagram corryn</p>	<p>3</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.2.1 (b) Darparu gwasanaeth	<p>Y dysgwyr yn ymchwilio ac yn darganfod pwy sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn yr ardal leol ac yn genedlaethol, a'r mathau o wasanaethau sydd yn cael eu cynnig.</p> <p>Rhowch y wybodaeth mewn tabl – â cholofnau ar gyfer y math o sector; ydy'r gwasanaeth yn diwallu anghenion plant, pobl ifanc a/neu oedolion; ac ydy'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.</p> <p>Trafodwch sut gellir grwpio gwasanaethau ymhellach mewn sectorau gofal statudol, preifat, gwirfoddol ac anffurfiol. Darganfyddwch y diffiniad/disgrifiad o bob sector a'i ychwanegu at y tabl o wasanaethau.</p> <p>Cwblhewch y tabl.</p>	<p>Manyleb, tudalennau 20-22</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Cyfeiriaduron lleol</p> <p>Gwefannau byrddau iechyd lleol</p> <p>Gwefannau grwpiau elusennol a gwirfoddol</p> <p>Adnoddau ar-lein CBAC</p>	Ymchwil annibynnol ar gyfer Uned 2 Aseiad Di-arholiad Tasg 1 (a)	4
2.2.1 (c) Gweithio amlasiantaethol	<p>Trafodwch sut a pham mae darparwyr gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd a sut mae hyn yn rhan o ddeddfwriaeth.</p>	<p>www.llyw.cymru i gael gwybodaeth am 'Dechrau'n Deg', Fframwaith Aseu'r Teulu ar y Cyd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</p>		1
2.2.1 (ch) Pwysigrwydd/manteision gweithio amlasiantaethol	<p>Trafodwch pwy fyddai'n ffurfio rhan o dîm amlddisgyblaethol.</p> <p>Nodwch bwysigrwydd/manteision gweithio amlasiantaethol.</p> <p>Lluniwch ddiagram corrbyn.</p>	<p>Gwerslyfrau, profiad personol.</p>		
2.2.1 (d) Llwybrau gyfa	<p>Mae'r dysgwyr i gyd yn dewis swyddogaeth gweithiwr proffesiynol allweddol mewn gwasanaethau lleol/cenedlaethol ac yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r nodweddion y mae eu hangen ar gyfer y swyddogaeth.</p> <p>Cyflwynwch y canfyddiadau fel hysbyseb swydd ar gyfer papur newydd/cylchgrawn.</p>	<p>Gwerslyfrau, KUDOS</p> <p>www.healthcareers.nhs.uk</p> <p>www.nmc.org.uk</p> <p>Siaradwyr gwadd</p>	Ymchwil annibynnol ar gyfer Uned 2 Aseiad Di-arholiad Tasg 1 (b)	2

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.2.2 (a) Iechyd y cyhoedd	<p>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch restr o dri awgrym i wella iechyd:</p> <p>‘Peidiwch ag ysmegu. Os gallwch chi, rhowch y gorau iddi. Fel arall, ysmygwch lai.’</p> <p>‘Dilynwch ddeiet cytbwys, gan fwyta digonedd o ffrwythau a llysiau.’</p> <p>‘Rheolwch straen drwy, er enghraifft, siarad am bethau a gwneud amser i ymlacio.’</p> <p>Gofynnwch i bob grŵp nodi:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Pam gallai'r cyngor arwain at well iechyd? 2. Ar ba agweddau ar iechyd a lles unigolyn bydd hyn yn dylanwadu? 3. Pe bai'r unigolyn yn dilyn pob darn o gyngor, pwy arall fyddai'n elwa? <p>Trafodwch yr atebion.</p> <p>Cyflwynwch y syniad bod iechyd yn gyfannol a bod bod yn iach yn golygu gwahanol bethau i wahanol unigolion.</p> <p>Trafodwch y gwahaniaeth rhwng iechyd unigolion ac iechyd cyhoeddus a swyddogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru o gynorthwyo unigolion i wella a chynnal eu hiechyd a'u llesiant.</p> <p>Ymchwiliwch a chynhyrchwch boster i amlinellu canllawiau'r llywodraeth mewn perthynas â bwyd, ymarfer corff ac alcohol.</p>	<p>icc.gig.cymru/</p> <p>www.llyw.cymru</p> <p>www.wales.nhs.uk/cym</p>	Cwblhewch boster	3

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.2.2 (b) Hybu iechyd a dulliau hybu iechyd</p>	<p>Y dysgwyr yn archwilio deunyddiau hybu iechyd i ganfod:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Pa fater maen nhw'n ceisio ymdrin ag ef? 2. Beth yw'r strategaeth? 3. At ba grŵp targed mae'r deunydd wedi'i anelu? <p>Disgrifiwch bwrpas hybu iechyd. Cyflwynwch y gwahanol fathau o ddulliau hybu iechyd.</p> <p>Y dysgwyr yn edrych eto ar ddeunyddiau hybu iechyd i ganfod pa ddull sy'n cael ei ddefnyddio.</p> <p>Defnyddiwch enghreifftiau o wahanol faterion hybu iechyd i'r dysgwyr ymchwilio iddynt a chanfod y gwahanol asiantaethau hybu iechyd sy'n ymwneud ag ymateb i fater.</p>	<p>Deunyddiau hybu iechyd (taflenni, posteri, hysbysebion teledu ac ati) sy'n ymwneud â materion presennol</p> <p>Manyleb, tudalen 25</p> <p>Gweithwyr proffesiynol (e.e. nyrs ysgol)</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>icc.gig.cymru/</p> <p>Gwefannau awdurdodau lleol</p> <p>Gwefannau byrddau iechyd lleol</p> <p>Gwefannau grwpiau elusennol a gwirfoddol</p>	<p>Ymchwil annibynnol ar gyfer Uned 2 Aseiad Di-arholiad Tasg 2 (a), (c)</p>	<p>3</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.2.3 (a) Dangosyddion iechyd a llesiant da ar draws cylchred bywyd	<p>Cysylltwch yn ôl â 2.1.1 i atgoffa'r dysgwyr o ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad a sut gall y rhain effeithio ar iechyd a llesiant.</p> <p>Trafodwch sut gallwn ni fesur iechyd da. Disgrifiwch weithdrefnau (amrediad normal, diogelwch, sut i ddehongli canlyniadau).</p> <p>Gall dysgwyr wneud gweithgareddau i fesur pwysedd gwaed, anterth llif, indecs màs y corff (BMI).</p> <p>Gellir rhoi sylw i gyfradd curiad y galon wrth orffwys ac i adfer ar ôl ymarfer corff mewn gwersi addysg gorfforol.</p> <p>Cofnodwch eich canlyniadau mewn tabl.</p> <p>Dehonglwch y canlyniadau, gan ystyried oed, rhyw a ffordd o fyw.</p>	<p>Gwerslyfrau</p> <p>Gweithwyr proffesiynol (e.e. nyrs ysgol)</p> <p>Teclyn mesur pwysedd gwaed</p> <p>Mesurydd anterth llif</p> <p>Clorian</p> <p>Riwl fetr</p> <p>Stopwats</p>	<p>Rhowch senarios gwahanol unigolion, eu ffyrdd o fyw a mesurau iechyd</p> <p>Y dysgwyr yn dehongli a thrafod y canlyniadau</p>	2
2.2.3 (b) Dylanwadau ar iechyd a llesiant da ar draws cylchred bywyd	<p>Trafodwch a chwblhewch fap meddwl ynglŷn â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant da drwy gydol cylchred bywyd a'u heffeithiau (cadarnhaol a negyddol).</p> <p>Yna, bydd y dysgwyr yn nodi pa ffactorau mae unigolyn yn gallu eu rheoli a pha rai nad yw'n gallu eu newid.</p>	<p>Gwerslyfrau</p> <p>Manyleb, tudalen 26</p>	<p>Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Aseiad Di-arholiad Uned 2 Tasg (b)</p>	1
2.2.3 (c) Risgiau i iechyd a llesiant	<p>Y dysgwyr yn rhestru'r ffactorau ffordd o fyw mae unigolion mewn gwahanol gamau bywyd yn gallu eu rheoli ond sy'n gallu achosi risg iddynt.</p> <p>Trafodwch y ffactorau hyn a nodwch effaith y ffactorau hyn ar iechyd a llesiant.</p> <p>Y dysgwyr yn gwneud nodiadau.</p>	<p>Gwerslyfrau</p> <p>Manyleb, tudalen 26</p>	<p>Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Aseiad Di-arholiad Uned 2 Tasg 2 (ch)</p>	1

Uned 3 - Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21^{ain} ganrif

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.3.1 (a) Beth yw cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?	<p>Cyflwyno cynnwys yr uned ac asesu.</p> <p>Y dysgwyr yn gweithio mewn parau i restru'r ffyrdd mae unigolion sy'n byw yng nghymdeithas heddiw'n wahanol i'w gilydd ac ystyried ydyn nhw i gyd yn cael eu trin yr un fath.</p> <p>Bydd pob pâr yn ysgrifennu ystyr i'r termau 'amrywiaeth', 'cydraddoldeb', 'gwahaniaethu' a 'chynhwysiant'.</p> <p>Trafodwch y fanyleb a chyfeiriwch at ddiffiniadau ynddi.</p> <p>Defnyddiwch enghreifftiau perthnasol o anghydraddoldeb mewn cymdeithas a gofynnwch i'r dysgwyr ddisgrifio ffyrdd o'u trin yn fwy cyfartal.</p>	<p>Erthyglau papur newydd/cylchgrawn/ar-lein i gael enghreifftiau perthnasol</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Manyleb, tudalen 28</p>	<p>Dysgwch ddiffiniadau'r termau 'cydraddoldeb', 'amrywiaeth', 'gwahaniaethu' a 'chynhwysiant'</p>	1
2.3.1 (b) Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant	<p>Atgoffwch y dysgwyr o'r diffiniadau.</p> <p>Rhannwch nhw'n grwpiau.</p> <p>Cyflwynwch senarios sydd wedi'u gosod mewn gwahanol leoliadau gofal nad ydynt yn hybu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth.</p> <p>Bydd y grwpiau'n nodi sut gall y lleoliadau gofal hybu cydraddoldeb a chynhwysiant a dathlu amrywiaeth. Trafodwch.</p>	<p>Erthyglau papur newydd/cylchgronau/ar-lein</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Siaradwyr gwadd</p>	<p>Cwblhewch y diagram corryn</p>	2

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
	<p>Crëwch ddiagram corryn i ddangos sut y gellir cyflawni cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.</p>			
<p>2.3.1 (c) Deddfwriaeth i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant</p>	<p>Gofynnwch y cwestiwn ‘Sut rydyn ni’n amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu a thriniaeth anghyfartal?’ Trafodwch.</p> <p>Gweithgaredd carwsél – chwe lleoliad â gwybodaeth ynglŷn â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017.</p> <p>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau gan roi gweithgaredd wedi'i amseru ym mhob lleoliad. Y dysgwyr yn casglu gwybodaeth am bob sefydliad.</p> <p>Trafodwch y canfyddiadau.</p> <p>Crëwch gymorth adolygu.</p> <p>Rhannwch bapur A3 yn bum colofn. Ar ben pob colofn, ysgrifennwch enwau pum darn allweddol o ddeddfwriaeth o'r fanyleb.</p>	<p>Tafleuni gwybodaeth am bob darn o ddeddfwriaeth</p> <p>https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance</p> <p>https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-courts/civil-rights/human-rights/the-human-rights-act-1998</p> <p>https://www.scie.org.uk/mca/introduction/mental-capacity-act-2005-at-a-glance</p> <p>https://llyw.cymru/topics/health/socialcare</p> <p>https://beta.llyw.cymru</p> <p>Manyleb, tudalen 29</p> <p>Defnyddiwch senarios enghreifftiol i ddangos sut caiff deddfau eu gweithredu</p> <p>https://gofalcymdeithasol.cymru/</p> <p>https://www.nmc.org.uk/</p>	<p>Cwblhewch y cymorth adolygu</p>	<p>3</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
	<p>Y dysgwyr yn ymchwilio pwyntiau allweddol pob darn o ddeddfwriaeth ac yn eu nodi o dan y pennawd priodol.</p> <p>Trafodwch wybodaeth am godau ymarfer gan gyrff rheoleiddio, e.e. Gofal Cymdeithasol Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</p> <p>Ar gefn dalen A3, bydd y dysgwyr yn ymchwilio ac yn cwblhau map meddwl o swyddogaeth codau ymarfer a gynhyrchir gan gyrff rheoleiddio sy'n ymwneud â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.</p>			

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.3.1 (ch) Y Gymraeg a diwylliant Cymru	<p>Gofynnwch sut mae byw yng Nghymru'n wahanol i fyw mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.</p> <p>Trafodwch bwysigrwydd cydnabod diwylliant Cymru a'r Gymraeg i bobl Cymru.</p> <p>Ymchwil:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth yr Iaith Gymraeg Cymraeg 2050 • Mwy na geiriau • Y Cynnig Rhagweithiol <p>Gwnewch gymorth adolygu i roi sylw i bwyntiau allweddol pob un.</p>	<p>www.wales.com/language/cym</p> <p>https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/mwy-na-geiriau-ar-cynnig-rhagweithiol</p> <p>www.wales.nhs.uk/cym</p>	Gorffen y cymorth adolygu	2

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.3.2 (a) Pwrpas diogelu	<p>Trafodwch bwrpas deddfwriaeth a pholisïau diogelu wrth weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant. Gwnewch nodiadau.</p> <p>Lluniwch dabl gan restru'r ddeddfwriaeth a'r polisïau diogelu allweddol o'r fanyleb.</p> <p>Y dysgwyr yn ymchwilio i brif bwyntiau pob un, a'u hychwanegu at y tabl.</p>	<p>Enghreifftiau o faterion diogelu o bob cyfnod mewn bywyd o erthyglau papur newydd/cylchgronau/ar-lein</p> <p>Manyleb, tudalen 31</p> <p>https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-courts/civil-rights/human-rights/the-human-rights-act-1998 https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales www.inbrief.co.uk/child-law/children-act-1998 https://www.plantynghymru.org.uk/polisi-document/canllawiau-amddiffyn-plant-cymru-gyfan-2008 https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/vawdasv-wales-act-2015?lang=cy http://www.iechydmeddwl.cymru.net/deddf-iechyd-meddwl/</p>	Cwblhewch y tabl	2
2.3.3 (a) Materion cyfoes	<p>Cyflwynwch y mathau o faterion cyfoes sy'n bodoli mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, yng nghymdeithas heddiw.</p> <p>Trafodwch bwysigrwydd data ystadegol.</p> <p>Rhowch enghreifftiau i'r dysgwyr o ddata ystadegol sy'n ymwneud â materion cyfoes i'w dadansoddi a'u dehongli.</p>	<p>Erthyglau papur newydd/cylchgronau/ar-lein</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Manyleb, tudalen 32</p> <p>https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru http://www.wales.nhs.uk/ystadegauadata http://www.publichealthwales.nhs.uk</p>	Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad Uned 4 Tasg (b)	

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.3.4 (a) Iechyd, datblygiad a llesiant holistaidd drwy gydol cylchred bywyd</p>	<p>Gofynnwch y cwestiynau canlynol:</p> <p>Beth mae bod yn iach yn ei olygu i chi?</p> <p>Disgrifiwch adeg pan nad oeddech chi'n dda – sut roeddech chi'n teimlo?</p> <p>Trafodwch yr atebion.</p> <p>Atgoffwch y dysgwyr o'r cysyniad o Uned 2 bod iechyd yn holistaidd ac y dylai'r dysgwyr wybod diffiniad holistaidd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o iechyd.</p> <p>Y dysgwyr yn gweithio mewn paruau i restru sut mae unigolion yn gallu bod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain.</p> <p>Yna bydd y dysgwyr yn disgrifio sut y gallant, fel unigolion, dderbyn cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain drwy wneud dewisiadau bob dydd.</p> <p>Y dysgwyr yn edrych ar senarios enghreifftiol ac yn gwneud sylwadau am y dewisiadau ffordd o fyw mae unigolion yn eu gwneud.</p>	<p>Gwerslyfrau</p> <p>Senarios enghreifftiol o unigolion ym mhob cyfnod mewn bywyd yn gwneud dewisiadau bywyd iach ac afiach</p>	<p>Gorffen y gwaith senario</p>	<p>4</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.3.4 (b) Mentrau gan y Llywodraeth</p>	<p>Trafodwch beth yw ystyr 'iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy'.</p> <p>Y dysgwyr yn defnyddio adnoddau i wneud poster sy'n dangos prif bwyntiau ac egwyddorion cynaliadwyedd ac iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, darbodus yng Nghymru.</p> <p>Trafodwch ddeddfwriaeth a mentrau cyfredol eraill sydd â'r nod o gynnal gofal iechyd cynaliadwy.</p> <p>Y dysgwyr yn gwneud 'ffeil ffeithiau' i amlinellu'r ddeddfwriaeth a'r mentrau presennol sydd â'r nod o gynnal gofal iechyd cynaliadwy.</p> <p>Defnyddiwch senarios enghreifftiol i ddangos sut gallai deddfwriaeth a mentrau presennol gefnogi unigolion ym mhob cyfnod mewn bywyd.</p>	<p>https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb</p> <p>https://llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/?lang=en</p> <p>https://gweddill.gov.wales/docs/dsijq/publications/160401-wfq-accessible-guide-for-young-people-cy.pdf</p> <p>http://www.prudenthealthcare.org.uk/resources</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/829/togetherforhealth.pdf</p> <p>Manyleb, tudalen 34</p>	<p>Cwblhau'r poster</p> <p>Cwblhau 'ffeil ffeithiau'</p> <p>Cwestiynau arddull arholiadau yn ymwneud â senarios enghreifftiol</p>	<p>5</p>

Uned 4 - Hybu a chynnal iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.4.1 (a) Mentrau sy'n anelu at fynd i'r afael ag agweddau ar iechyd a llesiant	<p>Y dysgwyr yn edrych ar amrywiaeth o ddata demograffig sy'n ymwneud â'r boblogaeth sy'n heneiddio, gordewdra, iechyd meddwl, iechyd rhywiol a thlodi ymysg plant, ac yn canfod tueddiadau a phatrymau yn lleol ac yn genedlaethol.</p> <p>Rhannwch nhw'n grwpiau. Bydd pob grŵp yn ymchwilio i fentrau lleol/cenedlaethol â'r nod o roi sylw i un o'r canlynol: poblogaeth sy'n heneiddio; gordewdra; iechyd meddwl; iechyd rhywiol; a thlodi ymysg plant.</p> <p>Bydd pob grŵp yn rhannu'r wybodaeth maen nhw wedi'i chanfod, a bydd y dysgwyr yn gwneud nodiadau.</p>	<p>https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/ystadegauadata</p> <p>http://www.gig.cymru/</p> <p>http://www.ageingwellinwales.com/wl/home</p> <p>https://www.dementiafriends.org.uk</p> <p>https://www.healthmapswales.wales.nhs.uk</p> <p>http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/rhagnodi-cymdeithasol</p> <p>https://www.timetochangewales.org.uk/cy/</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/healthtopics/lifestyles/sexualhealth</p> <p>https://qweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy</p>	Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad Tasg (b)	4
2.4.1 (b) Effaith iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar gymdeithas ehangach	Y dysgwyr yn astudio gwybodaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn cynhyrchu poster gwybodaeth i'r cyhoedd i ddangos sut bydd y ddeddf yn effeithio ar y canlynol: gofal a chefnogaeth i'r boblogaeth sy'n heneiddio (gan gynnwys pensiynau ac oedran	<p>https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb</p> <p>https://gov.wales/topics/health/socialcare/act</p>	Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad tasg (b)	6

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
	gweithio); gofalwyr anffurfiol; darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant ym mhob sector; a chynhyrchu ar y cyd.			

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.4.2 (a) Mathau o ofal</p>	<p>Defnyddiwch enghraifft o grŵp teulu ag aelodau o bob cyfnod mewn bywyd (gweler 2.1.1).</p> <p>Trafodwch gylchred bywyd a'r mathau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, sydd ar gael i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn i unigolion ym mhob cyfnod yn y gylchred bywyd, gan ystyried digwyddiadau bywyd disgwylidiedig ac annisgwyl.</p> <p>Y dysgwyr yn cynhyrchu taflen gyngor i ddangos y gwasanaethau sydd ar gael ym mhob cyfnod mewn bywyd.</p>	<p>Enghraifft o grŵp teulu (gweler 2.1.1)</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Manyleb, tudalen 38</p>	<p>Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Aseiad Di-arholiad Tasg (a)</p>	<p>3</p>
<p>2.4.2 (b) Bodloni anghenion</p>	<p>Trafodwch y math o anghenion gofal (PIES) sydd gan bob unigolyn, sut mae anghenion yn gorgyffwrdd a phwysigrwydd ystyried pob angen.</p> <p>Y dysgwyr yn llunio tabl i ddangos anghenion gofal (PIES) unigolion ar bob cyfnod yn y gylchred bywyd a sut i fodloni'r rhain.</p> <p>Trafodwch sut mae unigolion yn cael eu cadw'n ddiogel, yr amodau a'r amgylchiadau sy'n effeithio ar ofal, yr ymagwedd holistaidd a sut mae anghenion yn amrywio yn ôl oed, iechyd, diwylliant a rhywedd, a phwysigrwydd anghenion ysbrydol i rai unigolion.</p>	<p>Enghraifft o grŵp teulu (gweler 2.1.1)</p> <p>Gwerslyfrau</p>	<p>Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Aseiad Di-arholiad Tasg (a)</p>	<p>6</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
<p>2.4.3 (a) Hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o ddiogelwch a gwydnwch</p>	<p>Trafodwch ystyr y termau canlynol: 'hunaniaeth'; 'hunan-werth'; 'ymdeimlad o ddiogelwch'; 'gwydnwch'.</p> <p>Y dysgwyr yn nodi ystyron, yn gweithio mewn paru i ganfod rhestr o ffactorau sy'n effeithio ar hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o ddiogelwch a gwydnwch, ac yna'n dadansoddi effeithiau'r rhain.</p> <p>Trafodwch (gan ddefnyddio senarios enghreifftiol i egluro pwyntiau) sut gellir cefnogi unigolion ym mhob cyfnod mewn bywyd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol o ran hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o ddiogelwch a gwydnwch.</p> <p>Y dysgwyr yn gwneud nodiadau.</p>	<p>Manyleb, tudalen 39</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Senarios enghreifftiol ynglŷn â sut i gefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol o ran hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o ddiogelwch a gwydnwch drwy gydol cylchred bywyd</p>	<p>Gorffen y nodiadau</p>	<p>2</p>
<p>2.4.4 (a) Pwrpas gweithgareddau ystyrion er mwyn cefnogi a hybu iechyd, datblygiad a llesiant</p>	<p>Trafodwch ystyr gweithgareddau therapiwtig, creadigol, hamdden. Y dysgwyr yn gwneud tabl o enghreifftiau o bob un a'r buddion posibl i unigolion sy'n cymryd rhan.</p>	<p>Enghreifftiau o unigolion ym mhob cyfnod yn y cylchred bywyd yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau</p> <p>Gwerslyfrau</p>	<p>Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad Tasg (c), (ch)</p>	<p>1</p>

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.4.4 (b) Mathau o weithgareddau	<p>Ystyriwch y gwahanol fathau o weithgareddau sy'n gallu ffurfio rhan o ofal unigolyn (corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol a chreadigol).</p> <p>Y dysgwyr yn gwneud diagramau corryn i roi enghreifftiau o bob math o weithgareddau, gan nodi pa rai sy'n weithgareddau unigol a pha rai sy'n weithgareddau grŵp, pa rai sy'n darparu cefnogaeth holistaidd, pa weithgareddau sy'n berthnasol i bob cyfnod mewn bywyd, a pha weithgareddau sydd â ffocws ar grŵp oedran penodol.</p> <p>Trafodwch rôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran ystyried addasrwydd y math o weithgaredd.</p>	<p>Enghreifftiau o unigolion ym mhob cyfnod yn y gylchred bywyd yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Manyleb, tudalen 40</p>	Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad Tasg (c), (ch)	3
2.4.4 (c) Buddion cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon a chreadigol	<p>Y dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, e.e. chwarae cardiau, gemau bwrdd, jig-sos, gwneud cardiau cyfarchion.</p> <p>Trafodwch sut mae'r gweithgareddau o fudd i ddatblygiad PIES eu hunigolion.</p> <p>Defnyddiwch y diagramau corryn o 2.4.4 (b).</p> <p>Y dysgwyr yn nodi sut mae pob gweithgaredd enghreifftiol o fudd i ddatblygiad PIES unigolyn.</p>	<p>Gemau cardiau, gemau bwrdd, jig-sos, eitemau gwneud cardiau cyfarchion</p> <p>Diagramau corryn o 2.4.4 (b)</p>	Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad Tasg (c), (ch)	2

Testun	Gweithgaredd	Adnoddau	Gwaith cartref	Gwersi
2.4.4 (ch) Cynllunio a chyflawni gweithgareddau ystyrlon a chreadigol	<p>Defnyddiwch enghreifftiau o unigolion yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau.</p> <p>Y dysgwyr yn gweithio mewn paru ac yn gwneud rhestr o ffactorau roedd angen eu hystyried cyn gwneud y gweithgareddau ac wrth wneud y gweithgareddau.</p> <p>Trafodwch y canfyddiadau.</p>	<p>Enghreifftiau o unigolion ym mhob cyfnod yn y gylchred bywyd yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau</p> <p>Gwerslyfrau</p> <p>Manyleb, tudalen 41</p>	Ymchwil annibynnol ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad Tasg (ch)	3

7 Aseidiadau di-arholiad

Mae Uned 2 ac Uned 4 yn ddau Aseiad Di-arholiad. Byddant yn aros yr un peth tra bod y fanyleb hon ar waith, fel bod lle i ddysgwyr ganolbwyntio ar faes neu grŵp targed sydd o ddiddordeb penodol iddynt.

Mae'n bwysig gwneud yn siŵr, er bod grŵp targed y ddwy uned yn gallu dod o unrhyw gyfnod mewn bywyd:

- **na ddylai** ymgeiswyr sy'n astudio'r cymhwyster dwyradd ganolbwyntio ar grŵp targed â'r un cyflwr yn y ddwy uned; er enghraifft: plant ag awtistiaeth neu oedolion hŷn â dementia
- dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar grwpiau targed o wahanol gamau bywyd i ddatblygu ehangder eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Caniateir cwblhau ac asesu tasgau Aseiad Di-arholiad ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs, ond mae'n bwysig nodi:

- cyn dechrau ar y tasgau, mae'n hanfodol bod meysydd craidd cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud â'r tasgau wedi'u cyflwyno fel y gall yr ymgeiswyr ennill yr holl farciau a ddyrennir i'r Aseiad Di-arholiad
- dylai athrawon arwain ymgeiswyr tuag at feysydd ymchwil priodol a sefydlu sgiliau ymchwilio cadarn i'w paratoi nhw am dasgau Aseiad Di-arholiad
- rhaid i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar y grŵp targed sydd wedi'i ddewis o fewn pob tasg
- dylid cwblhau'r tasgau'n annibynnol – ni chaniateir gwaith grŵp
- dylai ymgeiswyr ddeall y llwybr drwy'r dasg a dangos gwybodaeth am bob un o'r adrannau
- dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r dyraniadau amser ar gyfer yr amodau dan oruchwyliaeth ar gyfer y tasgau a phryd mae'r sesiynau dan oruchwyliaeth yn digwydd
- dylid rhoi amser i'r ymgeiswyr, cyn dechrau oriau dan oruchwyliaeth y dasg, i gynnal ymchwil/ymchwiliad annibynnol y gellir ei wneud y tu mewn a thu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol a heb fod angen ei gofnodi; rhaid cwblhau pob gwaith arall ar gyfer tasgau Aseiad Di-arholiad o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a rhaid i'r athro/athrawes ei gofnodi ar gyfer pob dysgwr. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am y cofnod amser hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli
- yn ystod y cyfnod ysgrifennu, dylai gwaith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser a dylid ei storio'n ddiogel rhwng gwersi
- gellir ysgrifennu tasgau â llaw neu ar brosesydd geiriau
- gall athrawon roi arweiniad a chymorth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall gofynion y tasgau Aseiad Di-arholiad a sut y cânt eu marcio ond, wedi i'r gwaith ddechrau, rhaid cyfyngu adborth i gyngor cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth ynglŷn â'r hyn sydd angen ei gynnwys – ni cheir rhoi arweiniad penodol i ymgeiswyr unigol ynglŷn â sut i wneud gwelliannau
- nid oes gofyniad i'r ymgeiswyr gael gwybodaeth gynradd gan unigolyn, grŵp penodol o bobl neu weithiwr proffesiynol – pe bai ymgeisydd yn defnyddio'r dull hwn, rhaid i'r ymgeisydd a'r ganolfan barchu cyfrinachedd gwybodaeth a chydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

- er nad oes gofyniad i ymgeiswyr ymweld â gweithiwr proffesiynol neu unigolyn fel rhan o ymchwil ar gyfer eu tasgau Asesiad Di-arholiad, efallai y bydd rhai canolfannau'n ystyried cymryd camau penodol, megis mynd â'r grŵp cyfan ar ymweliad, neu wahodd gweithiwr proffesiynol i siarad â'r ymgeiswyr yn yr ystafell ddosbarth – yn yr achosion hyn, mae'n bwysig ystyried goblygiadau diogelu i bob parti
- cyn belled â phosibl, dylai'r holl ymgeiswyr gael yr un cyfle i gael yr un wybodaeth.

Mae angen i farciau Asesiadau Di-arholiad gael eu cofnodi ar-lein erbyn y dyddiad a nodir ym mis Mai y flwyddyn y mae'r gwaith i'w gyflwyno ar gyfer cymedroli. Pan gyflwynir y marciau i CBAC, bydd y system yn nodi sampl o ymgeiswyr y mae eu gwaith wedi'i ddewis i'w gymedroli.

- Dim ond y dystiolaeth gan yr ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer y sampl y dylid ei chyflwyno'n electronig gan ddefnyddio'r platfform ar-lein SecureAssess.
- Rhaid cadw gwaith yr holl ymgeiswyr eraill yn y ganolfan.
- Mae'n rhaid i'r ymgeisydd a'r athro lofnodi'r dudalen glawr.

Rhaid dilysu gwaith pob ymgeisydd yn fewnol, nid y sampl yn unig, drwy lofnodi taflen glawr.

Darperir manylion pellach am gyflwyno samplau yn <https://www.healthandcarelearning.wales/>.

Uned 2

Hybu a chynnal iechyd a llesiant

Mae Uned 2 (Asesiad Di-arholiad) yn cynnwys dwy dasg. Caiff ymgeiswyr wneud eu hymchwil ar gyfer y ddwy dasg heb oruchwyliaeth uniongyrchol cyn ysgrifennu eu hadroddiadau.

Dylai ymgeiswyr dreulio cyfanswm o tua 25 awr yn ysgrifennu eu hadroddiadau Asesiad Di-arholiad, a chwblhau eu gwaith o dan oruchwyliaeth yn y ganolfan. Caiff y ganolfan benderfynu faint o amser i'w ganiatáu ar gyfer ymchwil/ymchwiliad ymlaen llaw.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dri maes cynnwys yr uned.

Meysydd cynnwys

- 2.2.1 Iechyd a gofal cymdeithasol, a darpariaeth gofal plant yng Nghymru i hybu a chynnal iechyd a llesiant
- 2.2.2 Iechyd y cyhoedd a hybu iechyd drwy gydol cylchred bywyd
- 2.2.3 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol cylchred bywyd

Trosolwg o'r uned

Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant a ddarperir yng Nghymru a sut mae'r gwasanaethau hyn yn hybu ac yn cynnal iechyd a llesiant y wlad.

Mae canllawiau ychwanegol wedi'u cynnwys i gynorthwyo â'r asesiad lle bo'n briodol, h.y. lle nad yw'r cyfarwyddyd efallai'n egluro ei hun.

Tasg 1: Darparu Gwasanaethau

(10 awr - 40% o Uned 2)

Mae'r dasg hon yn ymwneud â darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc neu oedolion.

Mae'n bwysig bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant da ar gael i bawb yng Nghymru. Mae hefyd yn bwysig denu pobl i weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, a bod llwybrau gyrfa addas ar gael iddynt wrth ddatblygu eu sgiliau.

Eich tasg yw ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau i un grŵp targed a swyddogaethau dau weithiwr proffesiynol allweddol sy'n ymwneud â diwallu anghenion y grŵp targed.

Dylid cyflwyno eich gwaith ar ffurf adroddiad.

(a) Ymchwilio i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn lleol ac yn genedlaethol i fodloni anghenion un o'r grwpiau targed canlynol:

- plant
- pobl ifanc
- oedolion

Gallai'r ymgeiswyr ddewis bod yn fwy penodol o fewn eu dewis o grŵp targed, er enghraifft:

Plant – 0-3 oed, 4-11 oed, plant â chyflwr penodol, e.e. awtistiaeth

Pobl ifanc – pobl ifanc ag angen/cyflwr penodol, e.e. caethiwed, anhwylder bwyta, iselder

Oedolion – menywod beichiog, oedolion ag anghenion ychwanegol/cyflwr penodol, oedolion hŷn â dementia

Gwnewch ymchwil i ganfod a disgrifio gwasanaethau o bob un o'r sectorau gofal iechyd, gofal cymdeithasol a/neu ofal plant.

Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn, dylai'r ymgeiswyr:

- nodi ydy'r gwasanaeth:
 - mewn ardal leol a/neu genedlaethol
 - yn rhan o'r sector gofal iechyd, gofal cymdeithasol, neu ofal plant
 - yn statudol, yn breifat neu'n wirfoddol
- esbonio prif swyddogaeth pob un o'r gwasanaethau hyn ar gyfer y grŵp targed dan sylw
- dangos sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio
- enwi ffynonellau eu gwybodaeth – *gellir cyfeirio at hyn o fewn y gwaith neu ar ffurf llyfryddiaeth*
- cyflwyno'r wybodaeth ar fformat priodol – *er enghraifft, adroddiad, cyflwyniad PowerPoint, taflen, siart.*

(b) Ymchwilio i rolau dau weithiwr proffesiynol allweddol.

Ar gyfer un o'r gwasanaethau rydych chi wedi'u henwi:

- dewiswch ddau wahanol weithiwr proffesiynol allweddol ac esboniwch eu swyddogaethau mewn perthynas â'r grŵp targed a'u hanghenion – *ddylai'r swyddogaethau hyn ddim bod yn rhy debyg i'w gilydd, e.e. dau wahanol fath o nyrs*
- esboniwch y sgiliau a'r rhinweddau personol sydd eu hangen ar gyfer y swyddogaethau hyn
- nodwch gyfleoedd gyfa o fewn y swyddogaethau hyn – *e.e. llwybrau dilyniant, manau gwaith, y swyddi sydd ar gael*
- esboniwch sut mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gallu gweithio fel rhan o waith amlasiantaethol – *gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol a allai hefyd gynnwys cyfeirio at dimau amlddisgyblaethol o fewn lleoliad, e.e. ysbyty.*

(c) Dadansoddwch ganfyddiadau eich ymchwiliad gyda golwg ar:

- y gwasanaethau a'r gweithwyr proffesiynol allweddol sydd ar gael – *gallai hyn gynnwys yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael, pa mor hawdd yw eu defnyddio nhw, pellter, yr apwyntiadau sydd ar gael, ac ati*
- ydy'r rhain yn diwallu anghenion y grŵp targed – *corfforol, emosiynol, deallusol a/neu gymdeithasol*

Mae angen ymateb cytbwys mewn perthynas â'r ddwy agwedd ar y dasg.

Asesir ansawdd cyfathrebu'r ymgeiswyr yn rhan (c).

Cyfanswm y marciau [48]

Ar wahân i'w gwaith ymchwilio, dylai ymgeiswyr gwblhau'r dasg Asesiad Di-arholiad hon dan oruchwyliaeth mewn tua 10 awr (1 (a): 4 awr; 1 (b): 4 awr; 1 (c): 2 awr).

Tasg 2: Hybu Iechyd

(15 awr - 60% o Uned 2)

Mae'r dasg hon yn ymwneud ag ymgyrch hybu iechyd.

Rydym yn cael ein hannog yn gryf i gymryd cyfrifoldeb dros ein hiechyd a'n lles ein hunain. Mae angen cyngor a chefnogaeth arnom i allu gwneud hyn.

**Eich tasg yw cynllunio ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd sy'n galluogi grŵp targed o'ch dewis i wella eu hiechyd a'u lles.
Dylid cyflwyno eich gwaith ar ffurf adroddiad.**

Ar gyfer mater iechyd o'ch dewis, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- (a) Rhoi rhesymau dros ddewis eich:
 - testun
 - grŵp targed.
- (b) Ymchwilio i'r pwnc dan sylw gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau.

Dylech wneud y canlynol:

- disgrifio dylanwadau cadarnhaol a negyddol ar iechyd a lles y grŵp targed dan sylw (*dylai ymgeiswyr gyfeirio at 2.2.3 (b) i ystyried yn gyffredinol effeithiau cadarnhaol a negyddol y ffactorau ar les corfforol, meddyliol a chymdeithasol y grŵp targed*)
 - disgrifio effeithiau'r testun dan sylw ar iechyd a lles y grŵp targed (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.2.3 (c)*)
 - esbonio sut mae canllawiau/mentrau'r llywodraeth, sy'n benodol i'r testun dan sylw, yn ceisio cefnogi iechyd a lles (*Dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.2.1(a) a 2.2.2(a)*).
- (c) Asesu'r deunyddiau hybu iechyd sy'n bodoli o ran:
 - nodau'r deunyddiau
 - eu haddasrwydd i'r grŵp targed, (*e.e. cynnwys, lefel yr iaith, defnyddio lluniau, teip/maint y testun, ac ati*)
 - ydyn nhw ar gael i'r grŵp targed (*e.e. ble a sut maen nhw'n gallu cael y deunyddiau, ydyn nhw'n hygyrch i'r grwpiau targed?*)
 - ffynonellau cefnogaeth sydd ar gael i'r grŵp targed (*canfod cefnogaeth i gyflawni'r canlyniadau a awgrymir gan ddeunyddiau – gellid defnyddio siartiau cymharu yma i asesu o leiaf ddau fath o ddeunydd hybu iechyd sy'n bodoli*).

(ch) Cynllunio a chynhyrchu ymgyrch neu weithgaredd hybu iechyd.

Dylech ddangos tystiolaeth o'r canlynol:

- ystyried dulliau/technegau a ddefnyddir (*manteision ac anfanteision amrywiaeth o ddulliau/technegau ac a fyddent yn addas i'r grŵp targed/testun dan sylw*)
- dethol adnoddau priodol a'u defnyddio'n ddiogel (*cyfiawnhau'r dewis o adnoddau, dethol a gwrthod, ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch*)
- testun a lluniau ar lefel briodol
- ystyried y gost
- tystiolaeth weledol o'r deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer yr ymgyrch neu weithgaredd
- tystiolaeth weledol o gyflwyno'r gweithgaredd (os yn briodol) (*gellid efelychu'r gweithgaredd yn yr ystafell ddosbarth, ei gynnal gyda grŵp bach, os yw i blant*)
- ennill adborth (*cael copiâu o adborth ysgrifenedig, e.e. ffurflenni arsylwi, datganiadau tystion, holiaduron*).

(d) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg o ran y canlynol:

- yr adborth a gafwyd
- cryfderau a gwendidau'r ymgyrch neu'r gweithgaredd
- effeithiau hirdymor a byrdymor posibl yr ymgyrch neu'r gweithgaredd ar y grŵp targed.

Asesir ansawdd eich cyfathrebu yn rhan (d).

Cyfanswm y marciau [72]

Ar wahân i'w gwaith ymchwilio, dylai ymgeiswyr gwblhau'r Asesiad Di-arholiad hwn dan oruchwyliaeth mewn tuag 15 awr (2 (a): 1 awr; 2 (b): 2 awr; 2 (c): 2 awr; 2 (ch): 7 awr; 2 (d): 3 awr).

Rhaid cyflwyno Tasgau 1 a 2 i'w cymedroli gyda'i gilydd.

Uned 4

Hybu a chynnal iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol

Tua 25 awr

Mae Uned 4 (Asesiad Di-arholiad) yn cynnwys un dasg.

Caiff ymgeiswyr wneud eu hymchwil ar gyfer y dasg heb oruchwyliaeth uniongyrchol, cyn ysgrifennu eu hadroddiadau.

Dylai ymgeiswyr dreulio cyfanswm o tua 25 awr yn ysgrifennu eu hadroddiad Asesiad Di-arholiad, a chwblhau eu gwaith o dan oruchwyliaeth o fewn y ganolfan.

Dylai ymgeiswyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bedwar maes cynnwys yr uned.

Meysydd cynnwys:

- 2.4.1 Sut mae iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cyhoeddus, a Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (GIG Cymru), wedi gwella iechyd a llesiant y genedl
- 2.4.2 Sut gall mathau o ofal helpu unigolion i sicrhau canlyniadau cadarnhaol
- 2.4.3 Cefnogi hunaniaeth, hunan-werth, ymdeimlad o ddiogelwch a gwydnwch drwy gydol cylchred bywyd
- 2.4.4 Gweithgareddau ystyrlon i gynnal a hybu iechyd, datblygiad a llesiant

Trosolwg o'r uned

Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffyrdd mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn cefnogi unigolion yng Nghymru i gyflawni iechyd a llesiant.

Mae'r dasg hon yn ymwneud â ffyrdd o ddefnyddio gweithgareddau ystyrion i ddiwallu anghenion penodol.

Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn un o nodweddion hanfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrion yn un o ffocysau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Eich tasg yw dewis grŵp targed â chyflwr penodol neu anghenion penodol ac ymchwilio i sut mae gofal yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion penodol y grŵp targed hwn. Yna, bydd angen i chi greu gweithgaredd ystyrion ar gyfer y grŵp targed hwn. Dylid cyflwyno eich gwaith ar ffurf adroddiad.

Ar gyfer grŵp targed o'ch dewis ag anghenion penodol, bydd angen i chi wneud y canlynol:

(a) Ymchwilio i sut mae gwahanol fathau o ofal yn diwallu anghenion penodol grŵp targed o'ch dewis, er enghraifft: [20]

- plant â datblygiad wedi'i arafu (*0-3 oed, 4-11 oed, plant â chyflwr penodol, e.e. awtistiaeth*)
- unigolion â phroblemau symudedd
- oedolion hŷn sy'n colli eu cof
- unigolion â chyflwr iechyd penodol (*oedolion – menywod beichiog, oedolion ag anghenion ychwanegol/cyflwr penodol, oedolion hŷn â dementia*).

Dylech wneud y canlynol:

- disgrifio eu hanghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.4.2 (b)*)
- esbonio sut mae gwahanol fathau o ofal yn gallu diwallu eu hanghenion (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.4.2 (a)*)
- esbonio sut gellir darparu gofal holistaidd ar gyfer y grŵp targed hwn (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.3.4 (a)*).

Rhaid i'r ymgeiswyr beidio â chanolbwyntio ar yr un grŵp targed ag maen nhw wedi ei ddefnyddio ar gyfer Asesiad Di-arholiad Uned 2.

(b) Dadansoddi sut mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau gan y llywodraeth yn effeithio ar y gofal sy'n cael ei ddarparu i'r grŵp targed dan sylw. [20]

Dylech wneud y canlynol:

- dadansoddi data/ystadegau demograffig i ymchwilio i dueddiadau iechyd a chymdeithasol lleol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r anghenion/cyflwr penodol rydych chi wedi ei ddewis (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.4.1 (a)*)
- ymchwilio i fentrau lleol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r anghenion/cyflwr penodol rydych chi wedi ei ddewis (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.4.1 (a), 2.4.2 (b)*)
- ystyried sut mae'r rhain yn effeithio ar y gwasanaethau gofal sydd ar gael i'r grŵp targed dan sylw (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.4.1 (a) a (b)*).

(c) Ymchwilio i weithgareddau ystyrion i ddiwallu un o anghenion penodol y grŵp targed dan sylw.

[20]

Dylech wneud y canlynol:

- disgrifio amrywiaeth o wahanol fathau o weithgareddau (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.4.4 (b)*)
- esbonio pwrpas cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.4.4 (a)*)
- esbonio pam gallai'r gweithgareddau hyn ddiwallu anghenion y grŵp targed dan sylw (*dylai'r ymgeiswyr gyfeirio at 2.4.2 (a) a 2.4.4 (c)*).

Dylai ymgeiswyr gyfeirio at bob un o'r pwyntiau bwled ar gyfer pob gweithgaredd sy'n cael ei ddisgrifio.

(ch) Cynllunio a chynhyrchu gweithgaredd ystyrion sydd:

- yn diwallu anghenion penodol y grŵp targed dan sylw
- yn helpu i hybu hunaniaeth, hunan-werth, ac ymdeimlad o ddiogelwch neu wydnwch.

[40]

Bydd angen i chi ddangos tystiolaeth o'r canlynol:

- nod(au) y gweithgaredd
- dethol gweithgaredd priodol (*dylai ymgeiswyr roi manteision ac anfanteision amrywiaeth o weithgareddau a nodi a fyddent yn addas ai peidio i'r grŵp targed maen nhw wedi ei ddewis o ran diwallu anghenion, cyfiawnhau'r ffordd maen nhw wedi dewis y gweithgaredd hwn a gwrthod gweithgareddau eraill, a sut mae'r gweithgaredd yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*)
- sut gellid cynhyrchu'r gweithgaredd ar y cyd mewn lleoliad gofal
- cynllunio a threfnu adnoddau (*gallai'r ymgeiswyr gynnwys cynllun ar ffurf siart llif neu dabl a allai roi manylion cyfnodau cynllunio'r gweithgaredd; gallai siart ticio fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr i sicrhau eu bod wedi rhoi sylw i bob agwedd*)
- ystyriaethau iechyd a diogelwch
- y gweithgaredd (*gallai hyn fod yn dystiolaeth weledol o'r gweithgaredd*)
- cael adborth am y gweithgaredd (*cael copïau o adborth ysgrifenedig, e.e. ffurflenni arsylwi, datganiadau tystion, holiaduron*).

(d) Dadansoddi a gwerthuso'r dasg.

[20]

Dylech wneud y canlynol:

- gwerthuso'r gweithgaredd (*Ydy'r gweithgaredd wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion? Ydy'r grŵp targed wedi gwneud y gweithgaredd?*)
- trafod cryfderau a gwendidau eich gwaith o gynllunio a threfnu'r dasg (*e.e. oedd y gwaith o gynllunio a threfnu'r gweithgaredd yn effeithiol, oedd yr adnoddau'n briodol, ystyried ffactorau ffisegol megis lle, lleoliad, eich mewnbwn chi*)
- asesu pa mor dda mae'r gweithgaredd yn diwallu anghenion y grŵp targed (*cyfeirio at PIES, hybu hunaniaeth, hunan-werth, ac ymdeimlad o ddiogelwch neu wydnwch*)
- gwerthuso'r safbwyntiau neu'r barnau sydd wedi dod o adborth am y gweithgaredd (*gellid ategu'r dehongliad o'r adborth drwy ddefnyddio siartiau bar/cylch fel y bo'n briodol*)
- awgrymu ffyrdd o wella'r gweithgaredd i ddiwallu anghenion y grŵp targed yn well.

Asesir ansawdd eich cyfathrebu yn rhan (d).

Cyfanswm y marciau [120]

Asesiad Di-arholiad – (a): 3 awr; (b): 4 awr; (c): 3 awr; (ch): 11 awr; (d): 4 awr.

Cyfanswm: 25 awr dan oruchwyliaeth i'w gwblhau.

Does dim gofyniad nac argymhelliad ar gyfer nifer y geiriau na'r tudalennau mewn tasgau Asesiad Di-arholiad.

8 Arholiadau ysgrifenedig (Uned 1 ac Uned 3)

Mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol yn cynnwys papurau ysgrifenedig enghreifftiol a chynlluniau marcio ar gyfer Uned 1 ac Uned 3.

Drwy gydol y cwrs, dylid rhoi cyfleoedd i'r ymgeiswyr weithio drwy amrywiaeth eang o gwestiynau arholiad yn yr ystafell ddosbarth ac ar gyfer gwaith cartref.

Dylai ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â gosodiad y papur arholiad a gofynion y gwahanol fathau o gwestiynau, megis: atebion byr ac atebion ysgrifennu strwythuredig ac estynedig.

Dylid rhoi cyfleoedd i'r ymgeiswyr i ymarfer ateb y cwestiynau sy'n gofyn am atebion hirach ag ysgrifennu estynedig. Rhaid i'r ymgeiswyr ddeall 'meini prawf marcio' y cwestiynau atebion hirach, lle mae gofyn iddynt roi ffeithiau y mae'n rhaid eu cefnogi â rhesymau a thrafodaeth. Gall y cynllun marcio a ddefnyddir ochr yn ochr â'r papur arholiad roi dealltwriaeth bwysig i ymgeiswyr o sut mae marciau'n cael eu dyfarnu, a dyfnder y wybodaeth sy'n ofynnol.

Dylai ymgeiswyr:

- adolygu – mae'n bwysig dyrannu amser i wersi adolygu
- deall y termau sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn papurau arholiad (gweler tudalen 43)
- dilyn y cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi ar flaen y papur arholiad
- darllen pob cwestiwn yn ofalus ac **amlygu** neu danlinellu geiriau allweddol
- osgoi defnyddio pwyntiau bwled gan fod hyn yn tueddu i gynhyrchu atebion cyfyngedig (tebyg i restr) – mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ehangu ar eu hatebion ac yn rhoi ffaith, pwynt, esboniad neu reswm ac enghreifftiau da; mae atebion un gair yn dderbyniol ond dim ond os yw'r cwestiwn yn gofyn am y math hwn o ateb
- edrych ar nifer y marciau sydd wedi'u dyrannu i bob cwestiwn a gwneud yn siŵr bod yr atebion yn cynnwys digon o wybodaeth
- sicrhau bod eu hatebion yn berthnasol
- sicrhau bod eu hysgrifen yn ddarllenadwy ac osgoi defnyddio 'iaith negeseuon testun'
- cadw llygad ar yr amser – dylid gadael digon o amser i ddarllen drwy'r papur yn ofalus er mwyn sicrhau bod pob cwestiwn wedi'i ateb yn llawn.

Bydd arholiadau Uned 1 ac Uned 3 yn para 1 awr, 30 munud ac mae'r arholiadau'n cael eu cwblhau naill ai ar sgrin neu ar bapur.

Asesiadau allanol Uned 1 ac Uned 3

I sicrhau bod asesiadau'n targedu amcanion asesu (AA) mewn modd priodol a chyson, ac i helpu dysgwyr i ddeall gofynion cwestiynau arholiad, defnyddir geiriau gorchymyn penodol yng nghyd-destun y tri AA. Nid yw'r rhestr ganlynol yn un gwbl gyflawn.

AA	Gorchymyn	Gofynion i'r ymateb
AA1 Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth	Diffiniwch	Rhoi union ystyr
	Disgrifiwch	Rhoi nodweddion/prif nodweddion neu ddisgrifiad cryno
	Rhowch	Darparu/enwi/dethol/adnabod ffeithiau cryno neu enghreifftiau (o ffynhonnell sydd wedi'i rhoi neu o'r cof)
	Nodwch	Yr un fath â 'rhowch'
	Rhestrwch	Yr un fath â 'rhowch'
	Enwch	Yr un fath â 'rhowch'
	Amlinellwch	Amlinellu'r prif bwyntiau/rhoi disgrifiad cryno neu brif nodweddion
	Nodwch	Yr un fath â 'rhowch'
	Crynhowch	Dewis a chyflwyno'r prif bwyntiau (heb fanylu)
AA2 Cymhwyso gwybodaeth	Cymhwyswch	Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â damcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hyn â chyd-destun penodol
	Cyfrifwch	Datrys gan ddefnyddio ffeithiau, ffigurau neu wybodaeth sydd wedi'u rhoi
	Lluniwch	Creu fframwaith neu ddadl
	Esboniwch	Rhoi manylion a rhesymau ar gyfer pam a sut mae rhywbeth fel y mae
	Eglurwch	Defnyddio diagram neu eiriau i egluro sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio mewn cyd-destun penodol
	Dehonglwch	Trosi gwybodaeth o un ffurf i un arall
	Dangoswch	Yr un fath ag 'eglwurwch'
	Defnyddiwch	Cymhwyso'r wybodaeth sydd wedi'i darparu at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol
AA3 Dadansoddi a gwerthuso	Dadansoddwch	Archwilio mater yn fanwl/y berthynas rhwng rhannau a'r cyfan, i esbonio a dehongli
	Aseswch	Ffurio barn ar sail gwybodaeth
	Cymharwch	Adnabod tebygrwydd a rhoi sylwadau/esbonio
	Ystyriwch	Adolygu gwybodaeth a roddir ac ymateb iddi
	Cyferbynnwch	Adnabod gwahaniaethau a rhoi sylwadau/esbonio
	Trafodwch	Archwilio mater yn fanwl mewn modd strwythuredig, gan ystyried gwahanol syniadau

	Gwahaniaethwch	Adnabod ac esbonio'r gwahaniaethau rhwng syniadau neu destunau
	Gwerthuswch	Ffurio barn drwy gydbwysu tystiolaeth i ddod i gasgliad
	Archwiliwch	Ymchwilio'n agos, yn fanwl
	Cyfiawnhewch	Defnyddio tystiolaeth/dadl i ategu achos
	Argymhellwch	Cyflwyno cynnig yn seiliedig ar resymau/tystiolaeth

9 Adnoddau defnyddiol i athrawon

Mae'r rhestr ganlynol yn ganllaw i'r gwahanol adnoddau sydd ar gael i ategu'r fanyleb; nid yw'n hollol gynhwysfawr o bell ffordd. Dylai athrawon ddewis o'r rhestr ac ychwanegu ati pan fydd datblygiadau/llyfrau/erthyglau newydd ar gael.

Gwefannau ac adnoddau ar-lein

<https://www.estyn.llyw.cymru>

<https://llyw.cymru/topics/health/socialcare>

<https://www.gov.uk/government/publications/health-and-social-care-act-2012-fact-sheets>

<https://www.legislation.gov.uk>

<https://llyw.cymru>

<https://www.healthcareers.nhs.uk>

<https://www.nmc.org.uk>

<https://icc.gig.cymru/>

<http://www.wales.nhs.uk/cym>

<https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance>

<https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-courts/civil-rights/human-rights/the-human-rights-act-1998>

<https://www.scie.org.uk/mca/introduction/mental-capacity-act-2005-at-a-glance>

<https://beta.llyw.cymru>

<https://wales.com/cy/am-gymru/iaith/calon-y-genedl>

<https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/mwy-na-geiriau-ar-cynnig-rhaqweithiol>

<https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant>

<https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/wales>

<http://www.inbrief.co.uk/child-law/children-act-1989>

<https://www.plantynghymru.org.uk/polisi-document/canllawiau-amddiffyn-plant-cymru-gyfan-2008>

<https://law.gov.wales/publicservices/social-care/safeguarding-vulnerable-groups-act-2006/?lang=cy>

<https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/vawdasv-wales-act-2015?lang=cy>

<http://www.iechydmeddwl.cymru.net/deddf-iechyd-meddwl/>

<https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru>

<http://www.wales.nhs.uk/ystadegauadata>

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb>

<https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/160401-wfg-accessible-guide-for-young-people-cy.pdf>

<http://www.prudenthealthcare.org.uk/resources>

<https://diabetes-resources-production.s3-eu-west-1.amazonaws.com/diabetes-storage/migration/pdf/111101togethercy.pdf>

<http://www.ageingwellinwales.com/wl/home>

<https://www.dementiafriends.org.uk>

<https://www.healthmapswales.wales.nhs.uk>

<http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/rhagnodi-cymdeithasol>

<https://www.timetochangewales.org.uk/cy/>

<http://www.wales.nhs.uk/pynciauiiechyd/fforddofyw/iechydrhywiol>

<https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy>

<https://gov.wales/topics/health/socialcare/act>

Llyfrau

Health and Social Care for GCSE, 2009, Mark Walsh, Collins. (Gwerslyfr a phhecyn cymorth)

GCSE Health and Social Care, 2009, Angela Fisher, Stephen Seamons, Richard Cresswell, Mike Anci, 2009, Folens. (Gwerslyfr a phhecyn cymorth)

GCSE Health and Social Care, Liam Clarke, 2009, Nelson Thornes. (Gwerslyfr a phhecyn cymorth)

GCSE Health and Social Care, Elisabeth Haworth, Andy Ashton, 2009, Pearson Education Cyf.

GCSE Health and Social Care, Hilary Thomson, Sylvia Aslangul, 2009, Hodder and Stoughton.

Child Care and Development 7^{fed} Argraffiad, 2017, Pamela Minnett, Hodder Education.

Caring for Children A Foundation Course in Childcare and Education, 2009, Penny Tassoni, Heinemann.

Children's Care, Learning and Development (S/NVQ Level 2), 2008, Kate Beith, Penny Tassoni, Kate Bulman, Maria Robinson, Heinemann.

Supporting Children with Special Needs, 2015, Penny Tassoni, Hodder Education.

Cylchgronau

Nursing Times

Nursery World

The Carer